GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS

**GWASG PRIFYSGOL CYMRU – GWEITHDREFNAU COMISIYNU**

Mae llyfrau GPC yn seiliedig ar ymchwil academaidd; mae'n hanfodol eu bod yn cael adolygiad cadarnhaol gan gymar cyn cael eu cyhoeddi, er budd y sefydliad ysgolheigaidd, ac yn fwy eang, er budd cymdeithas yn gyffredinol. Yn y DU, mae cysylltiad annatod rhwng y byd academaidd a chyhoeddi ffrwyth ymchwil er mwyn bodloni gofynion megis y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, lle mae adrannau prifysgol yn gorfod cyhoeddi allbynnau ymchwil i'w gwerthuso ar gyfer cynhyrchu dangosyddion rhagoriaeth ymchwil cadarn ledled y DU ym mhob disgyblaeth, a darparu sail ar gyfer dosbarthu cyllid yn bennaf drwy gyfeirio at ragoriaeth ymchwil.

Mae GPC hefyd yn cyhoeddi nifer fach o lyfrau gan bobl nad ydynt yn academyddion sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y darllenydd cyffredinol; mae'r rhain yn ddarostyngedig i'r un prosesau â llyfrau academaidd, gan ei bod yn hanfodol eu bod yn gywir ac yn gydlynol, er bod cwestiynau'r adolygiad cymar yn wahanol i'r rheini ar gyfer ymchwil academaidd.

Mae **Prosesau a Gweithdrefnau Comisiynu**'n mapio ac yn cofnodi'r syniad cychwynnol o'r cam trafod cynnar hyd at ddatblygu a chaboli'r cynnig, cymeradwyaeth ffurfiol, y contract a throsglwyddo'r llawysgrif, gan gadw at arferion gorau yn unol â gweithdrefnau comisiynu academaidd safonol.

Caiff cynigion a llawysgrifau eu hadolygu gan gymheiriaid yn ystod y cam Comisiynu. **Mae'r broses adolygu gan gymheiriaid yn ganolog mewn cyhoeddi academaidd**. Mae'n profi dilysrwydd a chyfanrwydd yr ysgolheictod a thrwy hynny gynnal safonau uchel ar gyfer cyhoeddi academaidd. Mae adolygu trwyadl a llym gan gymheiriaid (ynghyd â swyddogaethau eraill sy'n ffurfio'r broses gyhoeddi academaidd, megis gwerthoedd golygu a chynhyrchu uchel, a marchnata a dosbarthu byd-eang) yn ychwanegu gwerth i waith ysgolheigaidd, a thrwy hynny'n sicrhau iddo nod ansawdd clir fel sy'n briodol i'w farchnad arfaethedig.

**Gwerthuso Cynigion**

Pan dderbynnir cynnig am deitl newydd, boed yn ffurfiol ar ffurf Holiadur Cynnig, neu ar ffurf trafodaeth anffurfiol, ceir nifer o gwestiynau sylfaenol sy'n ffurfio ac yn pennu llwyddiant y cynnig neu beidio wrth gael ei drosi'n endid cyhoeddedig:

1. A yw'r cynnig yn addas i GPC fel gwasg academaidd ym maes y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol?
2. Os felly, a yw'r cynnig yn bodloni gofynion cynllun busnes a strategaeth gomisiynu GPC?

Caiff pob cynnig ei gyflwyno fel hyn yn y Cyfarfod Comisiynu misol.

**Y Cyfarfod Comisiynu**

- Ysgogir gan yr Adran Comisiynu
- Yr Adran Comisiynu, yr Adran Gwerthiant a Marchnata a Chyfarwyddwr GPC sy'n bresennol yn bennaf
- Yr Adran Comisiynu'n cyflwyno agenda o deitlau posibl
- Yr Adran Comisiynu'n cyflwyno'r cynnig, a drafodir gyda chydweithwyr, gan arwain at y rhesymau dros/yn erbyn cyhoeddi
- Os yw'n gynnig dichonadwy, trafodir amryw faterion: potensial gwerthiant yn y maes pwnc, fformat arfaethedig (clawr caled neu glawr papur), pris adwerthu a hawliau atodol
- Gall yr Adran Gwerthiant a Marchnata gynnal ymchwil marchnad i faes cyhoeddi penodol o ganlyniad i ymholiadau yn y cyfarfod hwn
- Codir trafodaethau am adfywio ôl-restrau posibl yn y fforwm hwn
- Gwneir penderfyniadau yn y fforwm hwn a ddylid symud i'r cam nesaf drwy geisio adolygiad cymar i'r cynnig, a ddylid holi am ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad, neu a ddylid gwrthod y teitl. Os caiff ei wrthod, cysylltir â'r darpar awdur a'i hysbysu am y penderfyniad, gyda'r rhesymau sy'n sail i'r penderfyniad.

**Asesu'r Cynnig**

- Os penderfynir y dylid cyflwyno cynnig i'w adolygu gan gymar, cysylltir â'r awdur / Golygyddion y Gyfres i'w hysbysu. Ni ddatgelir pwy yw'r darllenydd er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn wrthrychol ac yn deg. Caiff ymagwedd 'hyd braich' ei mabwysiadu i sicrhau tegwch a diffyg tuedd: er enghraifft ni chaiff cynnig ei anfon at ddarllenydd yn yr un brifysgol â'r darpar awdur.

- Comisiynir unigolyn awdurdodol a berchir yn y maes pwnc penodol i gyflawni'r adolygiad cymar. Gofynnir i'r darllenydd ddarparu adroddiad ar sail y cwestiynau canlynol:

  - *Ydy'r cynnig yn meddu ar gydlyniad deallusol ac ydy'r cydbwysedd rhwng y penodau'n rhesymol?*
  - *Oes unrhyw fylchau yn yr ymdriniaeth arfaethedig?*
  - *Ydy'r cynnig yn torri tir newydd?*
  - *Oes unrhyw destunau sy'n cystadlu?*
  - *Ydy'r cynnig yn addas i'w gyhoeddi gan wasg prifysgol?*
  - *Oes gennych chi unrhyw syniadau am y farchnad ar gyfer llyfr o'r fath?*

  Yna gofynnir i'r darllenydd wneud argymhelliad clir a diamwys am y cynnig:

  - *Argymhellaf yn gryf y dylai GPC gyhoeddi'r cynnig hwn.*
  - *Credaf y dylid cyhoeddi'r cynnig yn dilyn ymgorffori diwygiadau/yn amodol ar ystyriaeth bellach.*
  - *Ni chredaf y dylai GPC gyhoeddi'r cynnig.*

- Os argymhellir na ddylid cyhoeddi'r cynnig, caiff y cynnig ei wrthod. Mae'r Adran Comisiynu'n cysylltu â'r awdur gyda chopi o'r adolygiad a'r rhesymau pam y cafodd ei wrthod.

- Os argymhellir y dylid cyhoeddi'r cynnig, anfonir yr adroddiad at yr awdur ac fe'i hysbysir y caiff cymeradwyaeth ffurfiol ei cheisio gan Grŵp Gweithredol GPC i gyhoeddi'r teitl.

- Os argymhellir y dylid cyhoeddi'r cynnig yn amodol ar ymgorffori diwygiadau/yn amodol ar ystyriaeth bellach, anfonir yr adroddiad at yr awdur a gofynnir a yw'n fodlon/yn gallu gwneud y newidiadau arfaethedig; os felly gofynnir i'r awdur ymateb i'r adroddiad ac esbonio'n glir pa ddiwygiadau a gaiff eu gwneud a sut y cânt eu cyflawni a'u hymgorffori. Yna anfonir ymateb yr awdur at y darllenydd, gan ofyn a all wneud argymhelliad diamwys i gyhoeddi, ar sail ymateb yr awdur. Os felly, hysbysir yr awdur y caiff cymeradwyaeth ffurfiol ei cheisio gan Grŵp Gweithredol GPC i gyhoeddi'r teitl. Os na all wneud, tynnir y cynnig yn ôl ar y cam hwn.

**Cymeradwyaeth Weithredol**

**i) Panel Golygyddol**

- Unwaith y bydd cynnig wedi'i gymeradwyo ar gyfer ei gyhoeddi, mae'r Adran Comisiynu'n paratoi Naratif i'r Cynnig a Chyllideb ar gyfer pob cynnig. Os oes angen cyllid, gofynnir i awduron sicrhau cyllid gan eu hadran (e.e. cyllid CCAUC a ail-ddyrennir lle bo ar gael/ffynonellau eraill)
- Caiff cyllideb (a ddarperir gan yr Adran Cynhyrchu) ei pharatoi ar sail meini prawf ariannol gofynnol GPC, h.y. er bod GPC yn wasg nid-er-elw, dylai'r costau cyhoeddi sicrhau canlyniad sy'n adennill costau o leiaf
- Mae rhagamcaniadau gwerthiant y Gyllideb yn seiliedig ar werthiant teitlau tebyg. Yna caiff cyllidebau eu cytuno gyda'r Cyfarwyddwr ar sail eu hasesiad o werthiant dros rediad argraffu o ddwy flynedd.
- Anfonir pob Naratif Cynnig at Gadeirydd y Panel Golygyddol ac at ddau aelod unigol o'r Panel Golygyddol; mae Aelodau'r Panel yn derbyn Naratifau Cynnig sy'n cydweddu â'u diddordebau academaidd cyn belled ag y bo'n bosibl. Nid oes unrhyw aelod o'r Panel Golygyddol yn derbyn Cynnig gan aelod o'u Hadran neu gynnig am gyfres y mae'r Aelod o'r Panel Golygyddol yn Olygydd arni.
- Gofynnir i'r Panel Golygyddol wneud argymhelliad o blith y canlynol:
    - **Argymhellaf gyhoeddi'r cynnig hwn.** Rhagor o sylwadau (os o gwbl); neu
    - **Mae angen rhagor o wybodaeth arnaf cyn gwneud penderfyniad**

- Mae’r wybodaeth sydd ei hangen fel a ganlyn; neu
- **Nid wyf yn argymell cyhoeddi’r cynnig hwn.** Nodwch y rheswm/rhesymau

- Os na chymeradwyir Cynnig i’w gyhoeddi, bydd yr Adran Comisiynu’n hysbysu’r awdur er mwyn trafod gyda’r awdur.
- Os daw cais am ragor o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad, bydd yr Adran Comisiynu’n cysylltu â’r Awdur a’r Aelod o’r Panel Golygyddol ynghylch y wybodaeth sydd ei hangen. Yna bydd yr aelod o’r Panel Golygyddol yn gwneud penderfyniad ar sail y wybodaeth a ddaw i law.

**ii) Cyfarfod Cymeradwyo Cynigion GPC**

- Caiff cynigion a argymhellir gan y Panel Golygyddol eu cyflwyno’n ffurfiol, ynghyd â’r Gyllideb, yng Nghyfarfod Cymeradwyo Cynigion GPC sy’n cwrdd yn rheolaidd. Nod y cyfarfod yw ceisio cymeradwyaeth ffurfiol i gyhoeddi’r llyfr
- Os ceir cymeradwyaeth, cysylltir â’r awdur i’w hysbysu yn dilyn y cyfarfod
- Caiff contract ei ddrafftio a’i lofnodi gan yr awdur a’r Cyfarwyddwr; mae’r contract yn nodi manylion y llawysgrif o ran teitl, nifer o eiriau, dyddiad cyflenwi ac ati
- Anfonir canllawiau arddull GPC gyda’r contract at yr awdur a disgwylir y caiff y llawysgrif ei chyflwyno yn defnyddio arddull y tŷ

**Cyflwyno Llawysgrif**

- Anfonir y llawysgrif at y darllenydd a luniodd yr adroddiad ar y Cynnig i gael adroddiad ar y llawysgrif. Mae’r llawysgrif hefyd yn cael **Adolygiad Golygyddol** i sicrhau bod y llawysgrif yn arddull y tŷ. Os yw’r llawysgrif yn sylweddol wahanol i arddull y ty, bydd gofyn i’r awdur wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol cyn cyflwyno’r fersiwn terfynol. Ar y cam hwn gofynnir i’r awdur gyflwyno **cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw ganiatâd** sydd ei angen i atgynhyrchu delweddau/detholiadau testun yn y llyfr.

  Gofynnir i’r darllenydd ddarparu adroddiad yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol:

- *Ydy'r llawysgrif yn meddu ar gydlyniad deallusol ac ydy'r cydbwysedd rhwng y penodau'n rhesymol?*
- *Oes unrhyw fylchau yn yr ymdriniaeth?*
- *Ydy'r llawysgrif yn torri tir newydd?*
- *Oes unrhyw destunau sy'n cystadlu?*
- *Ydy'r llawysgrif yn addas i'w chyhoeddi gan wasg prifysgol?*
- *Oes gennych chi unrhyw syniadau am y farchnad ar gyfer llyfr o'r fath?*

- Yna gofynnir i'r darllenydd wneud argymhelliad clir a diamwys am y cynnig:
  - *Argymhellaf yn gryf y dylai GPC gyhoeddi'r llawysgrif hon.*
  - *Credaf y dylid cyhoeddi'r llawysgrif yn dilyn ymgorffori diwygiadau/yn amodol ar ystyriaeth bellach.*
  - *Ni chredaf y dylai GPC gyhoeddi'r llawysgrif.*
- Os argymhellir y dylid cyhoeddi, anfonir copi o'r adroddiad at yr awdur gyda chais i'r awdur wneud gwiriadau terfynol i'r llawysgrif cyn ei chyflwyno. Pan ddaw i law, caiff y llawysgrif ei gwirio i sicrhau ei bod yn bodloni manylebau'r contract o ran hyd, nifer o ddarluniau, caniatâd ac ati. Caiff ei hail-gyllidebu i benderfynu'n derfynol ar y pris, y fformat a'r rhediad argraffu
- Os argymhellir y dylid cyhoeddi yn dilyn ymgorffori diwygiadau/yn amodol ar ystyriaeth bellach, anfonir copi o'r adroddiad at yr awdur a gofynnir a yw'n fodlon/gallu ymgorffori awgrymiadau'r darllenydd. Os yw'r awdur yn ymateb yn gadarnhaol caiff y llawysgrif ddiwygiedig ei hailgyflwyno i'r darllenydd gyda chais i ailasesu'r llawysgrif a gwneud argymhelliad fel y nodir uchod
- Os na argymhellir y dylid cyhoeddi'r llawysgrif, hysbysir yr awdur yn ffurfiol am hyn ac anfonir copi o adroddiad y darllenydd. Yna cyflwynir y mater i Fwrdd Ymgynghorol y Wasg i'w drafod a'i gofnodi.

**Trosglwyddo'r Llawysgrif: Cyfarfod Trosglwyddo**

- Ysgogir gan yr Adran Comisiynu pan fydd llawysgrifau'n cael eu trosglwyddo'n ffurfiol i'r Adran Cynhyrchu
- Yr Adrannau Gwerthiant a Marchnata, Cynhyrchu a Chomisiynu yn bresennol
- Cytunir ar amserlen cyhoeddi
- Yna bydd yr Adran Gwerthiant a Marchnata'n anfon Holiadur Marchnata at yr awdur, sy'n sbarduno cylch cyhoeddusrwydd a gwerthiant y llyfr (dyrannu ISBN/dosbarthu data llyfryddol i asiantaethau llyfryddol, cyflenwyr llyfrgelloedd ac ati/AIs, catalogau, taflenni'n cael eu paratoi)

**Cyn Argraffu**

- Cyllidebir y llawysgrif unwaith eto cyn argraffu ar sail amcangyfrif gan yr Adran Cynhyrchu; unwaith y caiff gymeradwyaeth y Cyfarwyddwr, anfonir y llyfr i'r wasg, cyflenwir copïau i GPC a chânt eu gwirio gan y Rheolwr Cynhyrchu; llofnodir y Memo Cyhoeddi gan y Rheolwr Cyhoeddi a'r Cyfarwyddwr, a chaiff y llyfr ei ryddhau i ddosbarthwyr GPC; mae cyhoeddi ffurfiol yn digwydd.